



## Sefydliadau gwirfoddol yn gweithio gydag unigolion, teuleodd a chymunedau



### Gweithio ar gyfer sector gwirfoddol cadarn ac annibynnol yng Nghymru.

Dros y flwyddyn i ddod mae Talwrn yn mynd i ganolbwyntio ar dri maes craidd:

- herio a chefnogi seilwaith y sector gwirfoddol yng Nghymru
- cefnogi meithrin gallu ac adnoddau gyda sefydliadau gwirfoddol a'r sector yn ei gyfanrwydd er mwyn datblygu llais cryfach, mwy hyderus, annibynnol
- cael rhagor o arian i ddod i Gymru o ymddiriedolaethau a sefydliadau elusenol

### Themâu

Drwy gydol y llynedd roedd Talwrn yn meddwl am ddyfodol y sector yng Nghymru a sut y gallwn gyfrannu at adeiladu ei allu a'i adnoddau. Edrychwyd ar arweinyddiaeth a chynaliadwyedd; sut i fesur effaith gymdeithasol; menter gymdeithasol a photensial ac anfanteision hyn; dyneiddio gofal cymdeithasol a'r berthynas rhwng y sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Ar ddechrau 2017 cynhaliwyd dau

ddigwyddiad i rannu rhai o'n syniadau ag eraill ac at ei gilydd cyfrannwyd syniadau gan bobl o tua saith deg o sefydliadau: <https://tinyurl.com/jvz7lxv> Drwy gydol 2017 byddwn yn rhyddhau erthyglau sy'n dwyn ynghyd y syniadau ar y pynciau hyn. Cadwch lygad am y rhain ar ein gwefan [www.talwrn.org.uk](http://www.talwrn.org.uk) ac mewn cyhoeddiadau yng Nghymru.

### PWY YDYM NI?

Mae Talwrn yn cael ei arwain gan grŵp annibynnol o bobl sy'n gweithio yn y sector gwirfoddol yng Nghymru ac yn rhannu dymuniad i weld y sector yn tyfu mewn nerth ac adeiladu ar ei allu a'i adnoddau i drechu tlodi ac anfantais mewn cymunedau ledled Cymru. Nid ydym yn sefydliad ffurfiol – nac yn bwriadu bod yn sefydliad ffurfiol, ond yn hytrach rydym yn strwythur i hyrwyddo cefnogaeth gan gymheiriaid a helpu'r rhai sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli yn y sector gwirfoddol yng Nghymru i helpu ei gilydd.

### CYSYLLTWCH

Talwrn  
c/o People and Work  
CMC@Loudoun  
Plas Iona, Butetown  
Caerdydd  
CF10 5HW

Ffôn: 029 2048 8536

[talwrn@peopleandwork.org.uk](mailto:talwrn@peopleandwork.org.uk)

## Sut y gallwn helpu?

Mae Talwrn wedi cael rhywfaint o gyllid gan Sefydliad Garfield Weston sy'n golygu y gallwn gefnogi sefydliadau gwirfoddol i gefnogi ei gilydd drwy:

- **helpu gyda chefnogaeth mentora cymheiriaid** – os ydych am dreulio amser gyda sefydliad arall i ddysgu am eu gwaith, neu os hoffech i rywun dreulio amser gyda chi er mwyn rhannu eu profiadau, gall Talwrn helpu gyda'r costau;
- **adolygiad gan gymheiriaid o geisiadau cyllido** – os ydych yn paratoi cais am gyllid ac y byddech yn croesawu 'cyfaill beirniadol' i edrych drwyddo a rhoi sylwadau cyn ichi ei anfon gall Talwrn helpu; a
- **gweithdai cyllid ymarferol/grwpiau trafod** – cyfle i gael ychydig o bobl at ei gilydd i gynllunio gwaith yn y dyfodol a sut y gellid ei gyllido gyda chyllid a help gan Talwrn. Bydd y

gweithdai/trafodaethau yn canolbwyntio'n benodol ar gyllid gan ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol.

Cynhelir y grŵp gweithdy cyntaf yn Rhondda ar 20 Mehefin o dan arweiniad Rhondda Gryfach a'r ail yng Nghaernarfon o dan arweiniad Sylfaen Cyf ar mis Awst.

Dull Talwrn yw dechrau gyda rhannu syniadau a gwybodaeth. Lle y bo'n ddefnyddiol gallwn ddefnyddio arbenigedd penodol ond y prif nod yw cael pobl i rannu profiadau a dealltwriaeth a datblygu ein meddwl. I gael rhagor o wybodaeth neu os oes gennych ddi-ddordeb mewn cael gweithdy yn eich ardal chi cysylltwch â Sarah Lloyd-Jones ar [talwrn@peopleandwork.org.uk](mailto:talwrn@peopleandwork.org.uk).

## Darllen diddorol

**Listening for Change.** Ebrill 2017. Mae Sefydliad Esmée Fairbairn ac Ymddiriedolaeth Blaggrave wedi dwyn ynghyd ymatebion gan dros 640 o sefydliadau diben cymdeithasol i arolwg a holodd eu barn ar y berthynas rhwng sefydliadau a'r rhai maent yn eu cyllido mewn perthynas ag ymddiriedaeth, atebolrwydd, cydweithio a chyfathrebu.  
<https://tinyurl.com/lgny4xu>

**Skills Survey 2016-17.** Mae'r Sefydliad ar gyfer Gwella Cymdeithasol (FSI) yn cynnal Arolwg Sgiliau Sector Elusennau Bach bob dwy flynedd. Mae'r arolwg diweddaraf yn casglu bod angen i ddarparu cefnogaeth hyfforddiant a sgiliau i elusennau bach a grwpiau cymunedol fod yn llawer mwy hyblyg.  
<https://tinyurl.com/k5s9b3j>

**Llunio Eich Dyfodol:** comisiynodd CGGC a Chynghorau Gwirfoddol Sirol yng Nghymru y gwaith hwn i helpu i fapio rôl bosibl y sector gwirfoddol yng Nghymru yn y dyfodol. Ceir dau adroddiad, un sy'n ystyried tueddiadau ar gyfer y dyfodol a'r llall yn nodi pedwar senario ar gyfer y sector yn y dyfodol.  
<http://www.wcva.org.uk/about-us/news/2016/11/strong-civil-society-vital-to-shaping-a-better-future-for-wales?seq.lang=cy-GB>

**Y Modd y mae Awdurdodau Lleol yn Ariannu Gwasanaethau'r Trydydd Sector:** rhyddhaodd Archwilydd Cyffredinol Cymru yr adroddiad hwn ym mis Ionawr 2017.

<http://www.audit.wales/cy/system/files/publications/Third-sector-funding-cym.pdf>

**Cymunedau Cadarn:** canolbwyntiodd rhifyn mis Mawrth 2017 o gylchgrawn Exchange Sefydliad Bevan ar gymunedau cadarn.

<https://tinyurl.com/jwr9dwr>

**Improving Lives: helping workless families:** Ebrill 2017. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio gwybodaeth gan Astudiaeth Carfan y Mileniwm a'r Arolwg Deall Cymdeithas a ffynonellau eraill i archwilio effeithiau bod heb waith. Mae'r 'camau nesaf' yn canolbwyntio ar gynlluniau Llywodraeth y DU, ond mae'r adroddiad yn darparu rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol.

<https://tinyurl.com/m566ro5>

Rhowch wybod i ni os ydych wedi darllen unrhwy beth yn ddiweddar y credwch y byddai'n ddefnyddiol i eraill.

## Canolbwyntio ar gyllid

Mae gan **Sefydliad Rank** dair thema graidd yn ei flaenoriaethau cyllido:

- Menter
- Gofal
- Arweinyddiaeth

Mae'r wefan

<http://www.rankfoundation.com/about/> yn esbonio rhagor am y meysydd gwaith hyn. Mae Sefydliad Rank yn cynnig grantiau ac, o dan y pennawd Menter, fenthyciadau. Mae'r wefan yn disgrifio dull sy'n:

- *Adlewyrchu ein hannibyniaeth a'n safbwynt hirdymor*
- *Mynd ati'n weithredol i feithrin ac annog partneriaethau a chydweithio*
- *Gwerthfawrogi dysgu a rhannu*
- *Cydbwyso anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol*

Fel cyllidwr mae Sefydliad Rank yn awyddus i ddysgu o'r gwaith a bydd yn treulio amser yn dod i adnabod derbynwyr grantiau a gweithredu drwy broses o 'ddyngarwch sy'n ymgysylltu'. Drwy hyn maent nid yn unig yn ceisio cyllido elusennau ond maent yn mynd ati gyda'i gilydd i ddatblygu cyfalaf deallusol hefyd drwy werthuso a dysgu o'r gwaith, a chyfalaf cymdeithasol drwy hyrwyddo

rhwydweithiau a gwaith wedi'i leoli mewn ardaloedd. Mae'r Sefydliad yn cynnal cynhadledd flynyddol sy'n ceisio rhannu'r hyn sy'n cael ei ddysgu ac ysgogi syniadau newydd.

**Sefydliad Garfield Weston** yw un o'r sefydliadau elusennol mwyaf yn y DU, gan roi grantiau o tua £60m y flwyddyn. Mae ei wefan [www.garfieldweston.org](http://www.garfieldweston.org) yn nodi:

*Mae'n well gan Ymddiriedolwyr elusennau sy'n darparu gwasanaethau a gweithgareddau yn uniongyrchol i'r rhai mewn angen, ac maent yn arbennig o awyddus i weld ceisiadau gan elusennau yn y sectorau Lles, Ieuencid a Chymunedol a hefyd mewn rhanbarthau o anfantais economaidd.*

Mae'r wefan yn nodi'n glir y math o waith maent yn ei gefnogi ac yn darparu gwybodaeth am grantiau diweddar Ionawr - Mawrth 2017, ac o blith y rhain daeth tua £275,000 i Gymru. Bydd Garfield Weston yn ystyried costau cyllid craidd ac mae llawer o'i grantiau diweddar (gweler yr adroddiad blynyddol ar y wefan) wedi bod i helpu sefydliadau ar bwynt o newid i ailfeddwl eu strategaeth, datblygu cynllun busnes neu wella eu gwaith.

# Rhondda Gryfach: enghraifft leol

Wedi'i ddechrau gan grŵp bach yn 2015, rydym yn rhwydwaith o sefydliadau, grwpiau ac unigolion a arweinir gan y trydydd sector neu'r sector gwirfoddol yn Rhondda gan ddathlu rhagoriaeth a herio difaterwch. Croesawn drafodaeth gadarnhaol, greadigol a beirniadol ac rydym yn agored i bawb yn yr ardal. Mae'r rhwydwaith yn gweithio'n gadarnhaol gyda'r sectorau cyhoeddus a phreifat yn yr ardal ond mae'n awyddus iawn i gynnal ethos y trydydd sector, gan archwilio ffyrdd newydd o fod yn gymuned yn Rhondda wrth i doriadau caledi wasgu hyd yn oed yn galetach a chymryd risgiau gyda phrosiectau a syniadau newydd.

Mae Rhondda Gryfach yn pwysleisio cryfderau pob sefydliad sy'n aelod. Er

enghraifft, crëodd Theatr Spectacle noswaith hudol ar thema Charlie & the Chocolate Factory i ddathlu'r gwirfoddolwyr gwych niferus yn Rhondda a gwnaeth Phil Vickery, cogydd lleol wedi'i leoli yng Nghapel Blaencwm, fwyd ar thema Roald Dahl (gan gynnwys coesau cyw iâr siocled!). Mae sawl digwyddiad i ddathlu wedi'u cynllunio yn Rhondda yr haf hwn fel rhan o wyliau presennol neu fel digwyddiadau newydd i archwilio'r nifer fawr o dalentau a sgiliau yn Rhondda. Rydym yn ceisio cymysgu a chydweddu oedrannau, sectorau (e.e. chwaraeon a'r celfyddydau), cymunedau a diddordebau, gan greu mwy o ymwybyddiaeth o wirfoddoli, cyfleoedd addysgol a chyflogaeth yn Rhondda a thu hwnt.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r wefan: [www.strongerrhondda.wales](http://www.strongerrhondda.wales)